

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Ymchwiliadau a Chwerneriaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Rheoliadau Ymchwiliadau a Chwerneriaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 gerbron Senedd y DU ar 29 Hydref ac mae'n cael ei osod gerbron y Cynulliad yn awr. Mae'r gorchymyn ar gael yn: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-inquiries-and-coroners-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i nod

3. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas ag ymchwiliadau cyhoeddus a chwestau crwneriaid.
4. Mae'r OS hwn yn gwneud cywiriadau technegol i Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Mae gofyn gwneud y cywiriadau hyn er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
5. Mae'r OS hefyd yn gwneud cywiriadau technegol i Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Crwneriaid (Gogledd Iwerddon) 1959, ond gan na fyddai modd i'r diwygiadau hyn gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru (gan eu bod y tu allan i'r cymhwysedd datganoledig) nid oes angen cymeradwyaeth ar eu cyfer.

Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

6. Mae Rheoliadau Ymchwiliadau a Chwerneriaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn diwygio adrannau 19, 22 a 25 o Ddeddf Ymchwiliadau 2005 drwy newid cyfeiriadau at "EU obligations" a "an enforceable EU obligation" i "retained EU obligations" a "a retained enforceable EU obligation."
 - Mae adran 19 o Ddeddf Ymchwiliadau 2005 yn nodi pwerau Gweinidogion (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) a chadeiryddion ymchwiliadau i gyfyngu ar fynediad y cyhoedd i ymchwiliadau. Mae adran 19(3)(a) yn cyfyngu ar y pwerau hyn drwy ddatgan na ddylai cyfyngiadau o'r fath ond ymwneud â meysydd a gwmpesir gan "any statutory provision, enforceable EU obligation or rule of law". Bydd y cyfeiriad at "enforceable EU obligation" yn cael ei newid i "retained enforceable EU obligation".
 - Mae adran 22(1)(b) o Ddeddf Ymchwiliadau 2005 yn darparu na ellir ei gwneud yn ofynnol i berson roi tystiolaeth i ymchwiliad pe bai gofyniad o'r

fath yn anghydawns ag un o rwymedigaethau'r UE. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei diwygio gan y rheoliadau er mwyn sicrhau y bydd yn parhau'n gymwys i "retained EU obligations".

- Mae Adran 25 o Ddeddf Ymchwiliadau 2005 yn galluogi personau i gadw elfennau o adroddiad ymchwiliad yn ôl lle bo hynny'n ofynnol gan rwymedigaeth UE orfodadwy. Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod personau o'r fath yn dal i allu dal gwybodaeth yn ôl yn unol â rhwymedigaeth UE orfodadwy a ddargedwir.
7. Mae'r diwygiadau hyn yn cadw'r status quo yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.
 8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5 uchod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag ymchwiliadau cyhoeddus.

Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro. O ganlyniad, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws Cymru a Lloegr yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Hydref 2018